

TAFLEN WYBODAETH

Chwefror 2013

Rheoli Chwyn Mewn Cnydau Porthiant a Glaswellt



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Cranfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer
Datblygu Gwledig Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardalooddi Gwledig
The European Agricultural
Fund for Rural Development
Europe Investing in Rural Areas

 **menter
a busnes**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Chwyn: Pam poeni?

Mae chwyn yn ddrud i'w tyfu! Mewn glaswelltir sydd wedi cael ei wella, maent hefyd yn lleihau cnwd a blasusrwydd, yr ardal bori, ansawdd y porthiant ac oes y glastir a hefyd yn effeithio ar berfformiad anifeiliaid. Mae rhai, fel llysiau'r gingroen, yn wenwynig i dda byw a phobl.

Mae yna lawer o wahanol ffyrdd i leihau problemau â chwyn gan ddechrau â hwsmonaeth dda e.e. lefelau maeth a pH pridd cywir mewn cyfuniad â mesurau rheoli diwylliannol yn cynnwys rheolaeth dda ar bori, cylchdroi cnydau yn gadarn, topio a silwair a phori bob yn ail. Hefyd gall chwynladdwyr helpu a byddant yn rhoi rheolaeth foddhaol yn y tymor byr, fodd bynnag, bydd chwyn yn ailymddangos os na fyddant yn cael eu hintegreiddio â hwsmonaeth dda a rheolaeth ddiwylliannol.

Gwell rhwystro'r clwy na'i wella

Unwaith y bydd chwyn yn broblem sefydledig daw'n fwy anodd oherwydd yn aml byddant yn lledaenu ac yn achosi mwy o broblem, sy'n cymryd amser, ymdrech ac arian i'w datrys.

Chwyn a'r Gyfraith

Mae dail tafol, ysgall y maes a marchysgall, a llysiau'r gingroen yn chwyn niweidiol ac wedi'u rhestru yn Neddf Chwyn 1959 (DU) a Deddf Rheoli Llysiau'r Gingroen Lloegr a Chymru 2003. Mae gan weinidogion y grym i gyflwyno rhybudd clirio ond ni fyddant yn gwneud hyn oni bai bod effaith uniongyrchol ar gynhyrchiad amaethyddol. Pan fydd y chwyn hyn yn cael eu darganfod ar ymylon a thir gwastraff dylid cysylltu ag awdurdodau lleol.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn manylu ar ffyrdd i fynd i'r afael â rhai o'r chwyn mwyaf arwyddocaol mewn cnydau porthiant a glaswelltir sydd wedi cael ei wella.

Ar gyfer tir sy'n rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol neu sydd wedi'i ddiogelu gan Ddeddfwriaeth Effaith Amgylcheddol cysylltwch â'ch Swyddfa Llywodraeth Cymru lleol i gael cyngor.

Pryderon newydd

1. Cemegau

Mae yna bryder cynyddol am ddefnyddio chwynladdwyr mewn amaethyddiaeth gan brynwyr llaeth a chig a defnyddwyr yn ogystal â thirfeddianwyr, ffermwyr, y llywodraeth a chyrff eraill sy'n gweithio i fodloni Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr Lloegr a Chymru. Mae halogi dŵr yn fater allweddol ac oni bai bod chwynladdwyr yn cael eu defnyddio yn gyfrifol, bydd eu defnydd yn cael ei gyfyngu neu ei dynnu'n ôl. Ar hyn o bryd, mae defnydd chwech ar hugain o gynhyrchion glaswellt a phorthiant yn cael ei adolygu.

Hefyd mae nifer o chwyn wedi datblygu ymwrthedd i rai o'r cemegau sy'n cael eu defnyddio ac nid oes llawer o ymchwil i mewn i gynhyrchion i gymryd eu lle.

Bydd defnydd cyfyngedig neu golled chwynladdwyr yn arwain at gynnydd o ran cost tyfu glaswellt a meillion.

2. Patrymau tywydd sy'n newid

Mae'r tywydd ansicr yn cael effaith ar reoli chwyn a'u tyfiant; mae digwyddiadau glaw trwm mynych yn aml yn arwain at sathru tir gan alluogi chwyn i ymwithio a sefydlu yno.

Mae'r tymereddau uwch a thymor tyfu hirach sy'n cael ei brofi mewn rhai blynyddoedd hefyd yn rhoi gwell gyflyrau i chwyn sefydlu eu hunain a gosod hadau ac yn caniatáu i blanhigion storio mwy o egni er mwyn aildyfu yn gyflym y flwyddyn ganlynol.

Hefyd, mae hafau gwlyb fel 2012 yn darparu llai o gyfleoedd i ffermwyr reoli chwyn trwy dopio neu chwistrellu gan roi cyfle pellach i'r chwyn ledaenu a/neu gynyddu o ran bywiogrwydd.

Cost plâu chwyn

Mae tabl 1 yn dangos y gost o ddefnyddio dwysfwydydd egni uchel (£270/tunnell) yn lle cynhyrchiad glaswellt a gollwyd ar 1 hectar o ganlyniad i bla chwyn.

% o chwyn	Cnwd glaswellt tunelli DM/hectar		
	7.5	10	14
	Cost y dwysfwyd (£)		
5	104	138	143
10	207	276	286

Mae tabl 2 yn dangos y colled o ran gwerthiant £/hectar (prisiau 2012) oherwydd pla chwyn 10% o ganlyniad i ostyngiad yn y gallu i gynnal stoc.

	Cnwd glaswellt tunelli DM/hectar		
	7.5	10	14
	Gwerthiannau a gollwyd £/hectar		
Llaeth	188	249	351
Lloi sugno	59	78	110
Ŵyn	75	99	140

Rheoli chwyn llydanddail mewn glaswelltir

Yn aml bydd chwyn yn sefydlu oherwydd rheolaeth wael ar bridd a glastir. Pan fydd chwyn yn broblem dylech bob amser dechrau trwy wirio strwythur y pridd, asidedd a'i statws maeth, a dilyn hyn â gwell rheolaeth ar bori a thorri.

Ysgall y maes

Effeithiau

- Mae cystadleuaeth yn gostwng cnwd: 5% o bla: 0.5t / hectar o golled DM (Dow AgroSciences).
- Llai o ardal bori â'r parth 'dim pori' hyd at 30cm mewn diamedr.
- Mwy o wrthod porthiant.
- Iechyd gwael ymhlith da byw, er enghraifft, haint orff a'i ledaeniad.
- Llai o elw a hyfywedd i'r fenter dda byw: gall gwreiddiau un planhigyn gwmpasu hyd at 5m² mewn 1 flwyddyn a hyd at 80m² mewn 2 flynedd.

Yn cael ei ledaenu gan

- Gwreiddiau dan ddaear: Hefyd gall planhigion egino o ddarn gwreiddyn 2.5cm os byddant yn cael eu torri neu niweidio.

Osgoi sefydliad a lledaeniad

- Osgowch bori'n drwm yn y gwanwyn a'r hydref â defaid.
- Gwellhewch ddraenio a ffrwythlondeb pridd.
- Cynyddwch ddwysedd glastiroedd;
 - porwch o Fai i Orffennaf: Gwartheg yn ddi-dor pan fydd uchder y glastir yn 7cm

Neu

- torrwyd gnydau silwair pan fydd ysgall mewn cyfnod tyfu cynnar
- Topiwch lastiroedd sy'n cael eu pori ddwywaith y flwyddyn pan fydd ysgall yn blodeuo â'r torwyr ar osodiad isel i gael gwared ar yr holl flagur a dail.
- Trowch ag aredig yn ddwfn a drosodd a throsodd i ddinistrio gwreiddiau; efallai y bydd aredig unwaith yn cynyddu nifer a bywiogrwydd y blagur.
- Chwynladdwyr: Ymhlith cemegau addas mewn glaswelltir sefydledig mae MCPA, 2, 4D, clopyralid, fflwroypyr a thriclopyr.

Prosiect Rheoli Ysgall y Maes Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio

- Clwt-chwynnu 2 ffordd - gostyngiad 67%
- Clwt-chwynnu 1 ffordd - gostyngiad 60%
- Chwistrellu sbot - gostyngiad 23%
- Dim triniaeth - cynnydd 24%

Ffynhonnell: IBERS GDC



Lluniau trwy garedigrwydd HGCA/BASF
Encyclopaedia of arable weeds

Marchysgall

Effeithiau

- Mae gorchuddio 1% o'r tir yn arwain at ostyngiad 1% o ran defnydd sych glaswellt (Kingshay 2011).

Yn cael ei ledaenu gan

- Hadau sy'n cael eu chwythu gan y gwynt; rhoséd bach yw planhigyn y flwyddyn gyntaf, yn yr ail flwyddyn bydd y planhigyn yn blodeuo a gosod hadau.

Osgoi sefydliad a lledaeniad

- Cloddiwch rhoséd y flwyddyn gyntaf.
- Topiwch lastiroedd sy'n cael eu pori ddwywaith y flwyddyn â'r torwyr ar osodiad isel pan fydd y planhigyn yn blodeuo.
- Chwynladdwr: glaswelltir sefydledig yn ystod y cyfnod rhoséd 4-10 o ddail a 20cm o led/uchder. Ymhlith cemegau addas mae MCPA, 2,4D clopyralid, fflwroypyr a thriclopyr.



Dail tafol

2 fath: llydanddail a chyrliog

Effeithiau

- Mae 10% o orchudd tir yn arwain at ostyngiad 10% o ran defnydd sych glaswellt.
- Colledion o ran cnwd yn fwy mewn silwair na gwyndwnnydd pori oherwydd bydd da byw yn bwyta dail tafol ifanc.

Yn cael ei ledaenu gan

- Hadau a rhannau o'r gwreiddiau wedi'u torri.

Osgoi sefydliad a lledaeniad

- Osgowch
 - ganiatáu i blanhigion flodeuo a mynd i had
 - priddoedd moel a glastiroedd agored
 - aredig bas, gall darn o wreiddyn dail tafol gynhyrchu mwy o flagur a gwreiddiau
 - niwed gan olwynion/potsio
- Bydd pori dwys/torri aml yn lleihau bywiogrwydd.
- Chwynnwch â llaw/topio **cyn** i hadau gyrraedd cyfnod llaethog.
- Gwellhewch ddwysedd glastiroedd; pori gan ddilyn canllawiau uchder glastiroedd.
- Sefydlwch wyndwnnydd newydd gan ddefnyddio cnwd gorchudd a blaenoriaethu rheolaeth ar gyfer y glaswellt.
- Rhowch slyri yn gyson ar briddoedd sych i osgoi difrod i glastiroedd.
- Compostiwch dail i ladd hadau dail tafol.
- Trowch ag aredig **yn ddwfn a drosodd a throsodd** a llusgo gwreiddiau i'r arwyneb, yna'u casglu i gael gwared arnynt – peidiwch â thorri gwreiddiau yn ddarnau a gwneud y broblem yn waeth.
- Chwynladdwr: mewn glaswelltir sefydledig wrth dyfu yn weithredol yn y cyfnod rhoséd 15 - 20cm o ddiamedr. Ymhlith cemegau addas mae MCPA, 2,4D clopyralid, fflwroypyr a thriclopyr.



Gwlydd yr ieir

Effeithiau

- Cnwd glaswellt gostyngedig 10 planhigyn/m² yn lleihau cynnwys rhygwellt gan 50%.
- Llai o ardal glaswellt: yn gallu mygu glaswellt yn llwyr.
- Risg o wenwyno da byw: cynnwys nitrogen uchel.
- Yn effeithio ar wneud silwair: cynnwys lleithder uchel, yn anodd ei wywo ac eplesu mwy gwael.
- Yn effeithio yn ddifrifol ar 66% o wyndwnnydd newydd (Dow AgroSciences).

Yn cael ei ledaenu gan

- Hadau; gall planhigyn blynyddol gwblhau 6 cylch bywyd/blwyddyn a chynhyrchu oddeutu 2,500 o hadau/planhigion.

Osgoi sefydliad a lledaeniad

- Ceisiwch sefydlu glastiroedd dwys a deiliog;
 - porwch wyndwnnydd newydd â defaid i annog glaswellt i gadeirio ac atal gwlydd yr ieir rhag sefydlu
 - defnyddiwch gae fel rhan o gylchdro pori yn hytrach na silwair i wella dwysedd y glastir
 - unwaith bydd dwysedd y glastir wedi gwella, dylech dorri a phori bob yn ail
- Gwiriwch lefelau maeth ac asidedd pridd; mae'n hoffi lefelau potash uchel a gall dynodi lefelau nitrogen uchel a ffosffad a chalch isel.
- Llyfnwch yn yr hydref a hau hadau glaswellt/meillion i lenwi bylchau, **nid yw topio yn effeithiol**; mae gwlydd yr ieir yn lledaenu'r is na'r uchder torri.
- Porwch yn drwm, sef 30-50 mamogiaid/hectar (15-20 mamogiaid/erw) am 10 diwrnod pan fydd y tir yn sych lle mae gwlydd yr ieir yn gorchuddio llai na 5% o'r ddaear.
- Defnyddiwch chwynladdwr priodol pan fydd yn tyfu yn weithredol, mewn gwyndwnnydd sefydledig gallwch ddefnyddio mecoprop p/ dicamba.



Llun trwy garedigrwydd HGCA/BASF
Encyclopaedia of arable weeds



Llun: © IBERS

Llysiau'r gingroen

Effeithiau

- Gall fod yn anghuol i bob stoc; mae'r planhigion yn wenwynig pan fyddant yn ffres, yn marw, wedi'u sychu mewn gwair ac wedi silweirio.
- Yn lleihau ardal bori a chnwd glaswellt.
- Yn gallu gwenwyno pobl.

Wrth dynnu llysiau'r gingroen gwisgwch fenig bob amser; mae'r alcaloidau gwenwynig yn mynd i mewn i'r llif gwaed trwy'r croen.

(Dr D Knottenbelt, Liverpool Veterinary Research)

Yn cael ei ledaenu gan

- Hadau sy'n cael eu chwythu ar y gwynt. Mae'n blanhigyn eilflwydd, yn ffurfio rhoséd o ddail yn y flwyddyn gyntaf ac yn blodeuo yn yr ail flwyddyn.

Osgoi sefydliad a lledaeniad

- Gallwch gael gwared ar llysiau'r gingroen o wyndwnnydd newydd trwy ogedu yn ysgafn yn gynnar yn y gwanwyn, ni fydd llysiau'r gingroen ifanc yn goddef aflonyddiad.
- Yn creu glastiroedd dwys, bywiog, llawer o grachgoed.
- Porwch wyndwnnydd newydd â defaid heb botsio.
- Gwiriwch lefelau potash, ffosffad ac asidedd pridd a'u cywiro.
- Porwch yn hytrach na thorri ar gyfer silwair.
- Peidiwch â thopio: mae topio yn ysgogi "bytholdeb" gan ganiatáu iddo osod hadau ar gyfer blwyddyn ychwanegol ac yn annog aildyfiant bywiog.
- Tynnwch blâu ysgafn cyn torri ar gyfer gwair neu silwair a byddwch yn ymwybodol ei fod yn gallu adfywio o ddarnau bach o wreiddyn.

- Mae rheolaeth gan chwynladdwyr yn opsiwn ond nid yw bob amser yn llwyddiannus ac mae planhigion "hanner marw" yn fwy deniadol i stoc a pheidiwch byth â'u cynnwys mewn gwair neu silwair. Tynnwch stoc am o leiaf 1 mis wrth ddefnyddio unrhyw driniaeth gemegol;
 - clwt-chwynnwch estyniad y coes (gweithredu'n araf)
 - chwistrellwch yn gyffredinol yn y cyfnod rhoséd o ddiwedd Ebrill-dechrau Mai neu yn yr hydref os bydd cynydau yn cael eu cymryd fel silwair a dilynwch hyn yn hydref y flwyddyn nesaf
- Ymhlith chwynladdwyr addas ar gyfer glaswelltir sefydledig mae cymysgeddau MCPA/2,4D.
- Mae sitronela Barrier H yn driniaeth gemegol "naturiol"; sbot-chwynnwch ar unrhyw adeg o'r flwyddyn - yn gyfeillgar i'r amgylchedd, yn gweithredu'n gyflym.



Lluniau: © IBERS

Blodau menyn

Effeithiau

- Llai o gnwd pori: Diflas.

Osgoi sefydliad a lledaeniad

- Mae blodau menyn yn dynodi ffrwythlondeb yn enwedig nitrogen; gwiriwch y statws maeth ac asidedd a'i gywiro.
- Gwellhewch ddraenio.
- Torrwch i osgoi hadu.
- Osgowch botsio a phori trwm.
- Llyfnwch yn y gwanwyn i lusgo allan yr ymledyddion crwydrol, a'u hel i atal ail-wreiddio.
- Chwynladdwyr: Yn cynnwys 2,4D ac MCPA neu gymysgeddau MCPA/2,4D. Mae llawer o gynhyrchion ar gael - byddwch yn ymwybodol bod rhai poblogaethau wedi datblygu ymwrthedd chwynladdwr i MCPA.



Rhedyn

Effeithiau

- Llai o ardal bori.
- Yn gallu gwenwyno da byw.

Osgoi sefydliad a lledaeniad

- Yn cael ei lledaenu gan risomau mawr sy'n storio egni, po fwyaf yw arwyneb y ddeilen, cryfaf bydd y planhigyn. Lleihewch lif egni o ddail i risomau trwy eu torri neu gleisio ganol mis Mehefin a gwnewch hyn eto 6 wythnos yn ddiweddarach. Pan fydd adar sy'n nythu ar y ddaear yn bresennol, gohiriwch y driniaeth gyntaf nes bod y rhai ifanc wedi magu plu.
- Trowch ag aradr ac ailhadu neu tyrchwch â phigau dwfn (2 daith), gan gywiro lefelau maeth ac asidedd.
- Aflonyddwch y sbwriel yn yr hydref i amlygu'r rhisomau; caniatewch i rew reiddio a stociwch â gwartheg.
- Chwistrellwch â chwynladdwr pan fydd y ffrond wedi ehangu yn llawn a gwneud hyn eto'r flwyddyn nesaf. Caniateir glyffosad ond bydd hefyd yn lladd glastiroedd glaswellt felly bydd angen ailhadu.



Danadl poethion

Effeithiau

- Mae'r lleihad mewn ardal bori a'r colled mewn cnwd glaswellt gyfwerth â 100% o ddarn heigiannus.

Osgoi sefydliad a lledaeniad

- Lladdwch wair drosodd a throsodd i atal hadu.
- Palwch i gael gwared ar goesau crwydrol.
- Trowch ag aredig.
- Ymhlith chwynladdwyr effeithiol mae 2,4D, 4D clopyralid, fflwroypyr a thriclopyr.



Lluniau trwy garedigrwydd HGCA/BASF
Encyclopaedia of arable weeds



Llun: © IBERS

Llwyddiant â chwynladdwyr

Gall chwynladdwyr fod yn ddefnyddiol fel "ateb sydyn" a helpu i leihau poblogaethau chwyn yn y tymor hir pan fyddant yn cael eu hintegreiddio â rheolaeth ddiwylliannol a gwell hwsmonaeth.

Dylech bob amser gael cyngor gan unigolyn â chymwysterau addas a dilyn label y cynnyrch. Mae cymeradwyaeth yn newid trwy'r amser - er enghraifft bellach ni ellir defnyddio cymysgeddau MCPA/MCPA â chwistrellydd cefn. Cofiwch fod pob chwynladdwr yn wenwynig - mae'n dibynnu ar y dos.

Pwyntiau allweddol

- Rhowch driniaeth ar gyfnod tyfiant cywir y cnwd neu chwyn;
 - maint optimol pob math o chwyn; os bydd yn rhy fawr/fach bydd effeithiolrwydd yn cael ei leihau
- Bydd tyfiant gweithredol yn gwella rheolaeth;
 - tywydd tyfu da; osgoi sychder/rhew, glaw a phlanhigion afiach
- Defnyddiwch y swm cywir o ddŵr i sicrhau bod cysylltiad rhwng y chwistrell a'r chwyn.
- Cadwch gemegau draw o gyrsiau dŵr.
- Defnyddiwch y gyfradd ddos gywir;
 - bydd gormod yn cynyddu'r risg i'r amgylchedd
 - os na fydd digon yn cael ei ddefnyddio bydd yr effeithiolrwydd yn cael ei leihau
- Dilynwch gyngor o ran cyfnodau torri a/neu bori, gan ganiatáu digon o amser i'r cynnyrch weithio a sicrhau na fydd planhigion sy'n marw yn achosi niwed i dda byw.
- Mae'n bwysig defnyddio cemegyn sy'n ddiogel i feillion lle rydych yn cynnal lefelau meillion, a chemegyn a gymeradwywyd ar gyfer gwyndwnnydd newydd wrth sefydlu glaswellt.

Chwyn cynydau porthiant

Mewn gwreiddiau a phorthiant cynydau bresych bydd poblogaethau chwyn uchel yn cystadlu â'r cnwd am ddŵr a maeth. Hefyd gall chwyn lochesu plâu pryfed a chludo clefydau fel bors (club root). Mewn systemau confensiynol, mae'n gyffredin rheoli chwyn yn y cnwd blaenorol, neu ddefnyddio chwynladdwr cyn-ymddangosiad ar ôl drilio. Fel arfer bydd llai o chwyn mewn cynydau a sefydlwyd trwy chwistrellu glaswelltir â chwynladdwr sbectrum-eang a drilio yn uniongyrchol i mewn i'r glastir sydd wedi sychu.

Bydd hwsmonaeth dda a rheolaeth ddiwylliannol yn lleihau cronid hadau chwyn yn y pridd a throsglwyddiad yr had i ardaloedd newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn systemau organig.

Chwyn cynydau porthiant

Mwstard gwyllt, dail y dinboeth a throed yr ŵydd

Effeithiau

- Colledion o ran cnwd.
- Gall mwstard gwyllt a dail y dinboeth fod yn wenwynig i dda byw os byddant yn bwyta llawer ohonynt.
- Mae troed yr ŵydd yn cymryd llawer o faeth o'r pridd.

Osgoi sefydliad a lledaeniad

Chwyn blynyddol: gall yr hadau barhau yn segur am gyfnodau hir neu egino ar unwaith.

- Ceisiwch reoli'r planhigyn ac atal hadu.
- Ataliwch yr hadau rhag dychwelyd/gael eu cyflwyno o hadau cnwd, gwellt a thail y fferm.
- Paratoi gwely hadau yn dda yw'r dull gorau o reoli ac yna aredig rhwng rhesi ar gyfer cynydau gwreiddyn;
 - tyrchwch y pridd yn rheolaidd cyn hau i ysgogi egino a defnyddiwch ddulliau mecanyddol i ladd adloddion olynol o hadblanhigion
 - hofiwch cynydau gwreiddyn i leihau plâu drwg.



Mwstard gwyllt



Dail y dinboeth



Troed yr ŵydd

Lluniau mwstard gwyllt a dail y dinboeth trwy garedigrwydd Blackthorn arable.
Llun troed yr ŵydd trwy garedigrwydd IBERS. Llun y clawr trwy garedigrwydd IBERS.

Awduron: Sue Buckingham, Heather McCalman, Huw Powell;
Canolfan Datblygu Tir Glas IBERS

Cysylltu

Am fwy o wybodaeth am holl wasanaethau Cyswllt Ffermio, cysylltwch â ni:

FFÔN

01970 636565

E-BOST

farmingconnect@
menterabusnes.co.uk

GWEFAN

www.menterabusnes.co.uk
/farmingconnect

Gallwch gael y newyddion diweddaraf gan Gyswllt Ffermio drwy ein cymuned ar-lein:

FACEBOOK

facebook.com/farmingconnect

TWITTER

@farmingconnect

Mae cymorth, arweiniad a hyfforddiant Cyswllt Ffermio yn cael ei ddarparu gan Menter a Busnes ar ran Llywodraeth Cymru